swyddfa'r dyfarnwr
yn darparu gwasanaeth diduedd i bawb

# Gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr ymchwilio i gŵyn neu adolygu penderfyniad

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth Swyddfa'r Dyfarnwr â Chyllid a Thollau EM ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn esbonio'r mathau o gŵynion y gallwn ymchwilio iddynt. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth Swyddfa'r Dyfarnwr â'r Swyddfa Gartref yn esbonio pa gŵynion ynghylch y Cynllun Iawndal Windrush y gallwn eu hystyried a'n rôl wrth adolygu penderfyniadau.

## Adran 1

### Pa adran sydd dan sylw?

Ni all Swyddfa'r Dyfarnwr ond ymchwilio i gŵynion neu adolygu penderfyniadau sy'n ymwneud â'r adrannau canlynol – rhowch X yn y blwch sy'n berthnasol:

- ☐ Cyllid a Thollau EM
- ☐ Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- ☐ Cynllun Iawndal Windrush
- ☐ Swyddfa'r Dyfarnwr

Pryd gawsoch ymateb terfynol gan Gyllid a Thollau EM, Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu'r Swyddfa Gartref (ynghylch y Cynllun Iawndal Windrush)?

# Adran 2

## Eich manylion (manylion y sawl sy'n llenwi'r ffurflen hon)

Sut yr hoffech i ni eich cyfarch? (Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr ac ati)

Enw Cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad llawn gan gynnwys cod post

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn arall (os oes un ar gael)

Os nad ydych ar gael, ble gallwn ni adael neges?

- ☐ Rhif ffôn yn ystod y dydd
- ☐ Rhif ffôn arall

Pa ddyddiau a pha amser yw'r gorau i gysylltu â chi yn ystod yr wythnos?

**Llenwch yr adran hon os ydych yn gwneud cwyn ar ran rhywun arall.**

Bydd angen i'r unigolyn dan sylw roi ei ganiatâd llofnodedig i chi weithredu wrth wneud a thrafod ei gŵyn.

Mae ffurflen ar gael ar ein gwefan. Amgaewch ei ganiatâd gyda'r ffurflen hon pan fyddwch yn ei hanfon atom (nid oes angen i Aelod Seneddol sy'n cynrychioli etholwr ddarparu caniatâd ysgrifenedig).

Ym mhob achos, llenwch y manylion isod am y person yr ydych yn ei gynrychioli.

Ei enw cyntaf

Ei gyfenw

Ei gyfeiriad llawn gan gynnwys cod post

Beth yw eich perthynas ag ef? (Er enghraifft, ffrind, perthynas, asiant, Aelod Seneddol)

# Adran 3

## Manylion y gŵyn

Dywedwch wrthym am yr hyn yr ydych am i ni ei ystyried. Dylech gynnwys unrhyw gyfeirnodau a roddwyd i chi.

Dywedwch wrthym am unrhyw effaith y mae hyn wedi'i chael arnoch.

Pa ganlyniad yr ydych yn ei geisio?